**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd am 7:00 y.h. Nos Fawrth, 18 o Awst 2020 drwy Zoom.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Phil Roberts (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Cemlyn Jones, Goronwy Hughes, Richard Robinson, Hefin Jones, Gwion Llwyd, Haf Williams.

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Meirwen Lloyd

**Clerc:** Meirion Jones

**642. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd

**643. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriad fel a nodwyd uchod. Ymddengys nad yw'r cyngor wedi derbyn ymddiheuriadau ar gyfer cyfarfod heno gan rai ond mae'n bosib fod problemau technegol yn gyfrifol am hyn oherwydd fod rhai aelodau wedi cael problemau gyda e-byst yn aros yn yr 'outbox' a ddim yn cael eu hanfon os yn defnyddio'r tabled.

**Penderfynwyd:** Y Clerc i anfon nodyn allan yn atgoffa pawb o'r angen i ymddiheuro os bydd aelod ddim yn gallu bod yn bresennol mewn cyfarfod o'r cyngor neu un o'i bwyllgorau ble mae'r aelod wedi' ethol arno, a'r Cynghorydd Cemlyn Jones i edrych fewn i'r problemau technegol

**644. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w nodi fel yn berthnasol

**645. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 21 Gorffennaf 2020**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd.

**646. I dderbyn unrhyw sylwadau yn codi o'r cofnodion.**

O dan eitem 629, diolchwyd i'r Cynghorydd Cemlyn Jones am ei waith yn gosod y tabledi fyny i aelodau ynghyd a sefydlu cyfeiriadau e-bost ar y tabledi i'r aelodau.

Trefniadau Nadolig 2020, yr eitem i'w roi ar agenda cyfarfod Medi.

**647. I dderbyn ymddiswyddiad Y Cynghorydd Clifford Williams**

Adroddwyd fod y Cynghorydd Clifford Williams wedi ymddiswyddo o'r cyngor ar ôl tua 45 mlynedd o wasanaeth ac fe dalwyd sawl teyrnged iddo gan yr aelodau.

**Penderfynwyd:** I anfon llythyr iddo i ddiolch am ei waith dros y blynyddoedd i'r gymuned ac i'r cyngor.

**648. I awdurdodi'r Clerc wneud y trefniadau angenrheidiol i lenwi'r sedd**
**Penderfynwyd:** Symud ymlaen i lenwi'r sedd cyn gynted a phosib a'r clerc i wneud y trefniadau angenrheidiol

**649. I dderbyn adroddiad am gyflwr coed ar gaeau chwarae Allt goch, Cwm y Glo a'r rhai oddi fewn i'r parc sglefrio.**

Adroddwyd fod angen cario allan asesiad risg ar y coed o amgylch cael chwarae Allt goch oherwydd nad oedd asesiad wedi ei wneud. Nodwyd fod pris wedi dderbyn gan 'Arborist' i gario allan yr asesiad.

**Penderfynwyd:** Oherwydd fod y pris gwaith dros ricyn y cyngor, yna i geisio pris arall am wneud y gwaith.

**650. I ystyried torri dwy goeden ger llwybr sydd yn arwain at Stad Sŵn yr Efail dim llawer o le ar y palmant ar y Lon Bost**

**Penderfynwyd:** Cyfeirio'r mater at Gyngor Gwynedd

**651. Mae eiddew yn tyfu ar yr arwydd Ffordd yn Groeslon Refail. Nid yw arwydd y fynwent i weld yn saff.**

**Penderfynwyd:** Cyfeirio'r mater at Gyngor Gwynedd

**652. I ystyried torri'r ddwy goeden yn ymyl Erw Hywel sydd yn ymyl y teiar blodau.**

**Penderfynwyd:** Cyfeirio'r mater at Gyngor Gwynedd

**653. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor y Fynwent yn dilyn cyfarfod a gynhaliwyd heddiw (18 Awst 2020) rhwng aelodau pwyllgor y fynwent a cynrychiolwyr o'r Eglwys yng Nghymru parthed dymuniad yr Eglwys i'r cyngor cymuned gymryd gofal o fynwent yr Eglwys**

Adroddwyd gan Cynghorydd Hefin Jones, Cadeirydd Pwyllgor y fynwent fod cyfarfod cychwynnol wedi bod gyda swyddogion o'r Eglwys St Mihangel Llanrug i gychwyn trafodaethau ar i'r Eglwys drosglwyddo mynwent yr Eglwys i'r cyngor. Adroddwyd ei fod yn angenrheidiol i'r Eglwys gario allan asesiad risg manwl ar gyfer y safle yn gyffredinol, y cerrig beddi, coed a waliau ac unrhyw ffens.

**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth a cytuno i symud ymlaen a'r cyngor gymryd drosodd rhedeg y fynwent ar yr amod fod yr asesiad risg yn cael ei wneud ac fod unrhyw wendidau / risgiau yn deillio o'r asesiad risg yn cael eu ddatrys. Yn sgil

ymddiswyddiad y Cynghorydd Clifford Williams, cyfetholwyd y Cynghorwyr Gwion Llwyd a Haf Williams ar Bwyllgor y Fynwent.

**654. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd**

Nid oedd y Cynghorydd Berwyn Parry Jones yn bresennol, felly dim adroddiad ar gael.

**655. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**
https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search

a) **Rhif y Cais:** C20/0612/23/DT

**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ

**Bwriad:** Codi modurdy a swyddfa yng nghefn yr eiddo.

**Ymgeisydd:** Ms R L Mullane

**Cyfeiriad:** 2, Carreg Y Fran, Cwm Y Glo, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4DD

**Cyfeirnod Grid:** 254941.31, 362999.49

**Ward:** Cwm y Glo

**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Cefnogi'r cais

**656. I ystyried y camau nesaf yn dilyn cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd yn Ysgol Gynradd Llanrug ar y 3ydd o Chwefror 2020.**

Adroddwyd yn dilyn y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd yn mis Chwefror, fod nifer o bwyntiau a godwyd yn y cyfarfod ddim wedi eu cario allan. Nodwyd yn ogystal yn mis Tachwedd 2019 fe gymeradwyodd y cyngor fwriad o ymestyn y cyflymder 40 milltir yr awr yn nes i gyfeiriad Pontrug.

**Penderfynwyd:**

a) Paratoi crynodeb o beth a gytunwyd yn y cyfarfod cyhoeddus gan nodi beth oedd angen ei gario allan ynghyd a manylion os beth sydd eisoes wedi ei wneud.
b) Cysylltu a Chyngor Gwynedd i holi pan na estynnwyd y cyflymder a pa bryd y bwriedir ei symud.

**657. I dderbyn adroddiad ar y cynllun cinio dydd Sul.**

Adroddwyd fod aelodau eisoes wedi derbyn copi o'r adroddiad.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**658. I ystyried cwynion am geir wedi gadael yn Cwm y Glo, rhai heb dreth eraill ddim wedi symud ers amser maith ac yn amddifadu trigolion o lefydd parcio.**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Cemlyn Jones fod nifer o geir yn parcio wrth waelod Allt Goch sydd naill ai ddim yn symud neu nad ydynt wedi eu trethu a'i yswirio. Adroddwyd ymhellach ei fod eisoes wedi bod mewn cysylltiad a'r Cynghorydd Berwyn Parry Jones a'i fod ef wedi cysylltu a swyddogion perthnasol Cyngor Gwynedd.

**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth

**659. I ystyried cais gan Eglwys Llanrug am gyfraniad eleni tuag at dorri gwair yn y fynwent sydd yn unol a'r cytundeb arferol sef £150. Hefyd, gan na wnaed cais ar gyfer 2018/2019 a 2019/20 2020, a fyddai'r cyngor yn ystyried cytuno i ddyfarnu'r grant am y ddwy flynedd hyn.**

**Penderfynwyd:** Cytuno i gyfrannu £150 ar gyfer y dair blynedd, sef cyfanswm o £450.

Daeth y cyfarfod i ben am 20:25

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad